Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Cymdeithasol:37/2018

Dyddiad cyhoeddi:27/06/2018

# Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i oedolion yn yr ystad ddiogel:

## Papur cefndir

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-78937-477-3

Gwerthusiad o wasanaethau digartrefedd i oedolion yn yr ystad ddiogel: Papur cefndir

Madoc-Jones,I., Hughes,C., Dubberley, S., Gorden.C., Washington-Dyer,K., Wilson,F., Ahmed, A., Lockwood,K., Wilding, M.

Adroddiad ymchwil llawn ar gael yn: https://llyw.cymru/statistics-and-research/evaluation-homelessness-services-adults-secure-estate/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag:

Ian Jones

Gwasanaethau Gwybodaeth Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ebost: ian.jones006@llyw.cymru

# Cynnwys


Talfyriadau a Geirfa ........ 2

Rhagair ........ 6

1. Digartrefedd a Throsedd ........ 6

1.1 Digartrefedd ........ 6

1.2 Polisi Tai mewn Persbectif ........ 10

1.3 Deddf Tai (Cymru) 2014 ........ 12

1.4 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014 ........ 16

1.5 Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Oedolion yn yr Ystad Ddiogel ........ 19

2 Y Cyd-destun Gweithredu ........ 20

2.1 Diwygio Lles ........ 20

2.2 Perchenogaeth Tai ........ 21

2.3 Diwygio Cyfiawnder Troseddol ........ 22

2.4 Deddf Tai (Cymru) 2014 ........ 27

3. Llwybr Cenedlaethol: Trefniadau Cyflenwi ........ 30

4. Llyfryddiaeth ........ 34

## Talfyriadau a Geirfa

- **Angen Blaenoriaethol:** Mae Adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) yn dynodi'r bobl/aelwydydd hynny a ddylai gael eu hystyried mewn angen blaenoriaethol (NB: fe ellir eithrio fel y gwelir yn ddoeth).
- **AP (Safleoedd Cymeradwy).** Hosteli a reolir gan yr NPS ac sydd fel arfer yn cartrefu troseddwyr Risg Uchel sydd wedi cael eu rhyddhau o'r ddalfa.
- **Atodiad 8.** Y ffurflen atgyfeirio tai a gwblheir ynghylch adawyr carchar, gyda'r bwriad o'i hanfon at ddarparwyr gwasanaethau prawf ac yna at adrannau tai 66 diwrnod cyn rhyddhau gadawyr carchar o'r ddalfa.
- **Atodiad 9.** Yr asesiad risg tai y dylid ei gwblhau gan ddarparwyr gwasanaethau prawf ac yna'i anfon, ynghyd ag atodiad 8, at adrannau tai awdurdodau lleol.
- **BASS (Gwasanaeth Llety a Chefnogaeth Mechnïaeth).** Sefydlwyd BASS ym Mehefin 2017 i ddarparu ffynhonnell o lety a/neu gefnogaeth i'r rheiny a fyddai'n cael eu cadw mewn carchar fel arall. Mae hwn yn wasanaeth penodol ar gyfer diffynyddion y gellir eu mechnïo a throseddwyr y gellir eu rhyddhau ar HDC neu sydd yn rhwym wrth orchymyn cymunedol dwys gyda Gofyniad Llety (mae troseddwyr rhyw a throseddwyr risg uchel wedi eu heithrio ar hyn o bryd).
- **BCS1 (Sgrinio Sylfaenol mewn Dalfa 1).** Asesiad a gwblheir gan staff Gwasanaeth Carchar ar bob carcharor o fewn 3 diwrnod ar ôl eu derbyn i'r carchar.
- **BCS2 (Sgrinio Sylfaenol mewn Dalfa 2).** Cynllun Adsefydlu sy'n rhoi manylion gweithgareddau y dylid eu hymgymryd er mwyn hyrwyddo adsefydlu ac ailsetlo pan ddaw dedfryd yn y ddalfa i ben. Cwblheir hyn o fewn 5 diwrnod gwaith i'r BCS1 gan staff TTG.
- **Bwriadoldeb.** Term a ddefnyddir pan fo cefnogaeth tai wedi ei chyfyngu oherwydd penderfyniad awdurdod lleol fod unigolyn wedi gwneud rhywbeth yn fwriadol, neu wedi methu â gwneud rhywbeth, a arweiniodd at golli eu llety (a77 Deddf Tai (Cymru) 2014).
- **CRCs (Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol).** Darparwyr Gwasanaethau Prawf i achosion risg isel a chanolig.

- **Cysylltiad Lleol:** Gallai rhywun fod â chysylltiad lleol ag ardal awdurdod tai lleol os yw'r person yn byw neu wedi byw yno, yn gweithio yn yr ardal, oherwydd rhesymau teuluol neu oherwydd amgylchiadau arbennig.
- **IOM (Rheoli Troseddwyr Integredig).** Daw IOM ag ymateb trawsasiantaethol i'r bygythiadau o droseddu ac aildroseddu a wynebir gan gymunedau lleol. Mae'r troseddwyr mwyaf dyfal a phroblematig yn cael eu dynodi a'u rheoli ar y cyd gan asiantaethau partner.
- **LLG (Llywodraeth Cymru).** Datganolir tai i Gymru, a Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r cyflenwad a'r dewis o dai, gwella ansawdd tai a darparu tai a llety cymdeithasol i bobl ddigartref. Nid yw gweithrediad y system cyfiawnder troseddol wedi'i ddatganoli i Gymru, felly Llywodraeth y DU sy'n dal yn gyfrifol amdano (yn bennaf drwy'r Swyddfa Gartref a'r Weinidogaeth Gyfiawnder). Fodd bynnag, ceir gorgyffwrdd sylweddol gyda meysydd cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru, gan gynnwys iechyd, addysg, tai a chefnogaeth gofal cymdeithasol.
- **MAPPA enwol (Trefniant Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd: enwol)**. Mae MAPPA enwol yn cyfeirio at dri categori o droseddwyr sy'n gymwys i gael eu rheoli ar Lefel 1, Lefel 2 neu Lefel 3 o dan Drefniadau Diogelu'r Cyhoedd Amlasiantaethol. Y tri categori yw: Categori 1: Troseddwyr Rhyw; Categori 2: troseddwyr treisgar a throseddwyr rhyw eraill a ddedfrydir i 12 mis neu fwy yn y ddalfa. Categori 3: Eraill.
- **MAPPP (Panel Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd).** Mae'r term hwn yn cyfeirio at y troseddwyr hynny a reolir ar lefel 2 a lefel 3 o dan MAPPA a chan hynny yn rhwym wrth drafodaeth a rheolaeth mewn cyfarfodydd panel amlasiantaethol rheolaidd.
- **NPS (Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol).** Ers 2015, yn gyfrifol yn unig am gynhyrchu adroddiadau llys a goruchwylio troseddwyr risg uchel, pob troseddwr rhyw a throseddwyr cymwys MAPPA.
- **OASys (System Asesu Troseddwyr).** Yr offeryn asesu a ddefnyddir i asesu a chynllunio er mwyn cwrdd ag anghenion troseddwyr dan oruchwyliaeth. Mae OASys yn archwilio 13 maes angen: Troseddau Presennol, Troseddu Blaenorol, Llety, Addysg a Hyfforddiant, Cyllid, Teulu a Pherthnasau Personol, Iechyd Meddwl ac Emosiynol, Ffordd o Fyw a Chymdeithion, Defnyddio Sylweddau, Meddwl ac Ymddygiad, Agweddau a Risg.

- **OM (Rheolwr Troseddwr).** Mae OM yn derm cyffredin a ddefnyddir i ddisgrifio Swyddog Cyfrifol carcharor.
- **OMU (Uned Rheoli Troseddwyr).** Tîm o fewn carchar sy'n cynnwys staff carchar mewn iwnifform, staff CRC ac NPS. Maent yn ymgymryd â chynllunio dedfryd gyda charcharorion ac yn hyrwyddo cyfranogiad o adsefydlu a gweithgareddau amcanus tra bod y person yn y ddalfa.
- **OS (Goruchwylwyr Troseddwyr).** CRC a staff carchar mewn iwnifform sy'n gyfrifol am oruchwylio troseddwyr risg isel a chanolig sy'n treulio dedfryd o dros 12 mis yn y ddalfa.
- **ORA (Deddf Adsefydlu Troseddwyr).** Deddf a estynnodd drefniadau goruchwylio i gynnwys pob gadawr carchar, gan baratoi'r ffordd i wasanaethau prawf gael eu rhannu rhwng NPS a CRCs.
- **PARWG (Gweithgor Adsefydlu Llety Carcharorion).** Sefydlwyd PARWG i archwilio'r posibiliadau o ddatblygu prosesau i sicrhau fod anghenion gadawyr carchar yn cael eu trafod.
- **PHP (Cynlluniau Tai Personol).** Fel arfer, datblygir PHPs rhwng staff opsiynau tai awdurdodau lleol a'r defnyddwyr gwasanaeth. Mae cynlluniau o'r fath yn amlinellu'r 'camau rhesymol' y gallai pob parti eu cymryd i atal digartrefedd neu helpu i sicrhau llety.
- **PLC (Prison Link Cymru).** Gwasanaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag anghenion carcharorion wrth iddynt gael eu derbyn i'r ddalfa.
- **Risg**: Mae cryn ddryswch ynglŷn â'r gair 'risg', yn bennaf oherwydd y gellir ei ddehongli mewn nifer o ffyrdd. Fe allai troseddwr gael ei ystyried yn risg uchel o aildroseddu, yn risg uchel o niweidio'i hun, yn risg uchel o ddianc ar fechnïaeth ayb. Yn y system cyfiawnder troseddol, defnyddir y term fel arfer i ddisgrifio troseddwyr a asesir yn 'Risg Uchel o Niwed Difrifol i eraill".
- **RO (Swyddogion Cyfrifol).** Mae hwn yn enw generig ar y person proffesiynol sy'n gyfrifol am oruchwylio troseddwr. Gallai'r Swyddog Cyfrifol fod o'r NPS neu'r CRC.
- **SEU: (Uned Eithrio Cymdeithasol).** Adran o'r Llywodraeth.
- **SPOC (Swyddog Cysylltiad Unigol).** Mae hyn yn cyfeirio at drefniadau lle mae (fel arfer) un unigolyn penodol yn gysylltbwynt mewn perthynas â mater neu fath o ddefnyddiwr gwasanaeth.

- **SP (Cefnogi Pobl).** Cyflwynwyd y rhaglen ‘Cefnogi Pobl’ yn 2003, gan ariannu gwasanaethau i ystod amrywiol o grwpiau sydd wedi eu heithrio yn gymdeithasol, gan gynnwys pobl gydag anawsterau dysgu a phobl gydag anawsterau iechyd meddwl. Y rhaglen yw’r brif ffynhonnell ariannu ar gyfer y mwyafrif o wasanaethau llety i bobl ddigartref gydag anghenion cefnogi ychwanegol. O Ebrill 2011 ymlaen, yn Lloegr, cafodd y dyraniad Cefnogi Pobl ei gynnwys yn y Grant Fformiwla a delir i awdurdodau lleol, fel nad oedd y dyraniad yn cael ei ddynodi ar wahân mwyach. Fodd bynnag, mae’n dal i fod yn ffrwd ariannu a ddynodir ar wahân yng Nghymru.
- **Swyddog Adsefydlu Carchar**. Aelod o dîm digartrefedd awdurdod lleol sy’n canolbwyntio ar gefnogi’r rheiny sydd ar fin gadael y ddalfa
- **TTG (Drwy’r Giât)**. Yr enw generig ar wasanaethau wedi eu hanelu at helpu gadawyr carchar i ailsetlo yn y gymuned. Mae CRCs yn gyfrifol am ddarparu Gwasanaethau ‘Drwy’r Giât’ ond ar y cyfan maent wedi isgontractio’r elfen honno o’r gwaith.
- **Working Links:** CRC Cymru.

# Rhagair

## 1. Digartrefedd a Throsedd

### 1.1 Digartrefedd

1.1.1 Pwrpas y papur cefndir hwn yw darparu dealltwriaeth o gyd-destun polisi ac ymarfer gweithredu'r Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Oedolion yn yr Ystad Ddiogel. Y mae'n seiliedig yn bennaf ar chwiliadau am dystiolaeth gan ddefnyddio'r allweddeiriau 'digartrefedd', 'carcharorion', 'llety' a 'gadawyr carchar' ar blatfform o'r enw Primo, sef offeryn chwilio cronfa ddata a chyfnodolion academaidd testun-llawn Prifysgol Glyndŵr Wrecsam.

1.1.2 Diffiniwyd digartrefedd gan y Cenhedloedd Unedig fel absenoldeb lloches parhaol sy'n peri i unigolion orfod cario eu heiddo gyda nhw a chymryd lloches lle y gallant (Cenhedloedd Unedig, 2004). Fodd bynnag, dadleuwyd yn rhywle arall fod yna gontinwwm o ddigartrefedd, gyda chysgu allan ar un pegwn a bod ag amodau llety dros dro, ansicr neu annigonol ar y pegwn arall (Watson ac Austerberry 1986; Mackie 2015).

1.1.3 Mae'r berthynas union rhwng digartrefedd a throsedd yn gymhleth gan fod digartrefedd yn gallu digwydd gyda nifer o ffactorau. Er enghraifft, mae astudiaethau yn UDA yn awgrymu fod oddeutu traean o bobl ddigartref yn cwrdd â'r meini prawf diagnostig ar gyfer salwch meddwl difrifol, ac os oes camddefnyddio sylweddau hefyd, gallai'r nifer fod mor uchel â 75% (Markowitz 2011). Awgrymodd Asesiad o Anghenion Iechyd Carchar a ymgymerwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru (2013), o'r 3,300 o ddynion sydd mewn carchardai ledled Cymru, fod 92% yn arddangos arwyddion o ryw fath o broblem iechyd meddwl cyn dod i'r ddalfa. Yn gyffredin ymhlith y boblogaeth oedd symptomau sy'n gyson ag anhwylder personoliaeth, seicosis gweithrediadol, anhwylderau niwrotig, problemau alcohol a defnyddio cyffuriau.

1.1.4 Chwedl Gibbons (1971), fe all digartrefedd achosi trosedd. Hynny yw, fe allai digartrefedd gymell troseddwyr, a fyddai heb gymhelliad fel arall, i droseddu. Mewn ymchwil gyda phobl ddigartref, darganfu Gibbons (1971) nad oedd troseddu yn ymddangos i fod oherwydd effeithiau uniongyrchol

unrhyw newidyn cefndir megis oedran, dosbarth neu rywedd, ond yn gysylltiedig ag anghenion goroesi.

1.1.5 Fel arall, fe allai digartrefedd fod yn gysylltiedig â throsedd oherwydd fod pobl digartref yn fwy tebygol o gael eu hamlygu i weithgareddau plismona. Yng Nghymru a Lloegr, cyflwynodd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2011 Orchmynion Diogelu Gofod Cyhoeddus sy'n gwarantu mwy o gysylltiad gyda'r heddlu i bobl ddigartref ar y stryd (O'Brien 2016). Yn fwy diweddar yn y DU, mae pryder ynghylch troseddau stryd, meddwdod cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol (sydd yn ôl ei ddiffiniad yn digwydd yn gyhoeddus) wedi canolbwyntio sylw ar yr hyn sy'n digwydd 'yn gyhoeddus' a chanfyddiadau atgyfnerthedig o gysylltiad rhwng anhwylder cymdeithasol, troseddu a phobl ddigartref.

1.1.6 Mae digartrefedd yn cynyddu'r tebygolrwydd o unigolyn yn diweddu yn y ddalfa ac yna'n aros yno'n hirach. Mae Deddf Mechnïaeth 1976 yn pennu fod penderfyniadau parthed carcharu cyn-treial yn dibynnu ar asesiad o debygolrwydd y person i 'fethu ag ildio i'r ddalfa'. Gellid ystyried bod yn ddigartref yn ffactor risg o ran methu ag ildio i'r ddalfa (Cooper a Sim, 2013). Ar ddiwedd dedfryd o garchar, fe allai pobl ddigartref fod yn llai tebygol o gwrdd â'r gofynion sy'n ofynnol i fanteisio ar drefniadau rhyddhad cynnar (Cyrffew Cyfyngu i'r Cartref).

1.1.7 Mae llawer o'r ymchwil ynghylch y cysylltiad rhwng trosedd a digartrefedd wedi archwilio'r berthynas rhwng digartrefedd a charcharu. Mae hyn ar ffurf astudiaethau sy'n archwilio'r nifer o bobl a ystyrir yn ddigartref, neu fel arall y nifer o bobl a ystyrir yn ddigartref sydd wedi bod yn y carchar.

1.1.8 Yn ôl astudiaeth yr Arolwg Lleihau Troseddau Carcharorion (SPCR), roedd 15% o sampl o 1435 carchar a ddedfrydwyd yn 2005/2006 yn ddigartref cyn iddynt fynd i'r ddalfa (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2012). Yn ôl rhai astudiaethau, mae oddeutu traean o droseddwyr heb gartref cyn iddynt fynd i'r carchar (Uned Euthrio Cymdeithasol 2002; Arolygiad Cyfiawnder Cymdeithasol ar y Cyd, 2014; Gojkovic et al 2012). Dywedodd traean o garcharorion eu bod wedi colli eu tai yn uniongyrchol o ganlyniad i gael eu carcharu (Shelter, 2008). Dywed cyfran debyg (sy'n dod i

oddeutu 30,000 o bobl y flwyddyn) eu bod yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau o'r carchar.

1.1.9 Ar y llaw arall, mae oddeutu 40% o bobl sy'n cysgu allan yn adawyr carchar diweddar (SEU 2002). Mae data o 2014/2015 yn awgrymu fod 32% o bobl sy'n cysgu allan yn Llundain wedi bod yn y carchar ar ryw adeg (Briffiad Clinks 2017).

1.1.10 Mae yna ddau reswm allweddol pam y gallai carcharorion golli eu tai pan fyddant yn y carchar a bod yn ddigartref ar ôl cael eu rhyddhau. Yn gyntaf, am eu bod yn methu cyfathrebu gyda'u landlord neu fanc, â hynny'n aml yn arwain at golli eu tenantiaeth neu forgais. Yn ail, o dan reolau budd-dal tai, pan fo eiddo yn wag o ganlyniad i ddedfryd carchar, telir rhent am 13 wythnos yn unig[1] .

1.1.11 Gallai carcharorion digartref fod mewn lle gwael wedyn i gael gafael ar lety amgen ar ôl cael eu rhyddhau. Mae carcharorion ymhlith y mwyaf dan anfantais a chyda'r lleiaf o sgiliau yn y boblogaeth. Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan y Gwasanaeth Sgiliau a Dysgu Troseddwyr (OLASS) yn 2015, roedd 46% o bobl oedd yn mynd i garchar yn ymarferol anllythrennog, o'i gymharu â 15% o'r boblogaeth gyffredinol. Darganfuwyd hefyd fod bron i draean o garcharorion yn dweud eu hunain fod ganddynt anhawster dysgu neu anabledd (OLASS, 2015). Awgrymir fod 24% o garcharorion yn dweud iddynt fod mewn gofal ar ryw adeg yn eu bywydau, o'i gymharu ag oddeutu 2% o'r boblogaeth gyffredinol (Coates, 2016). Er bod yr amcangyfrif union yn amrywio yn dibynnu ar y meini prawf diagnostig a ddefnyddir, mae anhwylder meddwl a chamddefnyddio sylweddau, fel y nodwyd eisoes, yn gyffredin ymhlith carcharorion (Nacro, 2016)

[1] Mewn rhai ardaloedd awdurdod lleol, gellir talu rhent hyd at 52 wythnos i unigolyn heb ei ddedfrydu/ ar remand. Mae taliad, fodd bynnag, ar y gyfradd (LHA) a ganiateir (gweler yn nes ymlaen) felly ni fyddai'n talu am unrhyw daliad 'atodol' ychwanegol a wneir gan denant fel arfer. Pan gyflwynir Credyd Cynhwysol (UC) (disgwylir iddo fod wedi'i gwblhau erbyn 2022), bydd hawlwyr yn parhau i dderbyn elfen tai'r UC am chwe mis pan fyddant yn y carchar ac na ddisgwylir iddynt fod yn absennol o'u cartref am fwy na'r cyfnod hwnnw. I'r rheiny sy'n bwrw dedfryd, mae hyn yn uwch na'r 13 wythnos a ganiateir o dan Reoliadau Budd-daliadau Tai. Fodd bynnag, i'r rheiny ar remand, mae hyn yn llai hael nag o dan y system bresennol.

1.1.12 Mae mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith gadawyr carchar yn hyrwyddo adsefydlu. Yn 2002, awgrymodd yr SEU y gallai cartrefu carcharorion leihau aildroseddu o 20%. Mae pobl sydd â llety wedi'i drefnu pan fyddant yn cael eu rhyddhau yn bedair gwaith mwy tebygol o gael cyflogaeth, addysg a hyfforddiant wedi'i drefnu na'r rheiny sydd heb (Niven a Stewart, 2005). Yn astudiaeth 2012 SPCR, edrychwyd ar y cysylltiad rhwng llety, digartrefedd ac aildroseddu. Cafodd mwy na thri-chwarter carcharorion (79%) a ddywedodd eu bod yn ddigartref cyn mynd i'r carchar eu haileuogfarnu, o'i gymharu â thua hanner (47%) na ddywedodd eu bod yn ddigartref cyn mynd i'r carchar.

1.1.13 Er gwaethaf canfyddiadau fel hyn, dylid nodi nad yw'n amlwg sut mae cael llety yn arwain at lai o aildroseddu (Bowpitt 2015). Mae'r lenyddiaeth ymatal yn archwilio adroddiadau troseddwyr o 'roi'r gorau i' droseddu. Mae'n awgrymu fod newidiadau mewn 'naratifau personol' (sy'n aml ynghlwm wrth ddatblygu cysylltiadau cymdeithasol gydag eraill rhag-gymdeithasol) yr un mor bwysig â newidiadau mewn amgylchiadau personol wrth gymell pobl i gefnu ar drosedd. Gan hynny, gallai gorchfygu problemau cymdeithasol megis digartrefedd fod yn annigonol ar ei ben ei hun i hyrwyddo ymatal (Farrall et al., 2010). Fe allai, fodd bynnag, fod yn gam cyntaf angenrheidiol. Yn hynny o beth, fe allai'r ffordd y darperir llety fod yn bwysig. Awgryma Maguire a Raynor (2001, p.147) fod gwrthgilwyr yn dueddol o feddwl nad oes ganddynt unrhyw rym dros eu bywydau eu hunain, tra bod ymatalwyr yn credu eu bod mewn rheolaeth. Gan hynny, gallai bod yn gyfranogwr gweithredol yn hytrach na derbyn cymorth yn oddefol fod yn bwysig.

1.1.14 Yn y cyd-destun fod carcharorion yn debygol o gael trafferth dod o hyd i, cynnal a chadw tenantiaethau, weithiau fe gyferbynnir model 'Cartrefu yn Gyntaf' gyda model 'Grisiau' i gwrdd ag angen. Mae modelau Housing First yn canolbwyntio ar gartrefu pobl yn gyflym a'u cefnogi yn y llety hwnnw. Ar y llaw arall, mae'r model 'Grisiau' mwy cyffredin yn cynnig y dylai sgiliau byw gael eu datblygu yn fwy graddol, ac unigolion yn cael eu symud i amodau o annibyniaeth gynyddol. Arloeswyd y dull 'Cartrefu yn Gyntaf' o weithio gyda phobl barhaol ddigartref yn Efrog Newydd yn ystod y 1990au cynnar, a'i fabwysiadu'n helaeth gyda chryn lwyddiant mewn

gwledydd fel y DU (Johnsen a Teixeira, 2010; Pleace a Bretherton, 2013; Bowpitt 2014). O ganlyniad, mae Shelter wedi dadlau:

> *Mae yna dystiolaeth i awgrymu fod Cartrefu yn Gyntaf yn ddull hynod gost-effeithiol, yn enwedig wrth gymharu arbedion cost gyda llety lle ceir cefnogaeth traddodiadol, llochesi i'r digartref, neu arosiadau posibl mewn carchar neu ysbyty (Shelter 2015a, p.5).*

## 1.2 Polisi Tai mewn Persbectif

1.2.1 Am y rhan fwyaf o'r 40 mlynedd diwethaf, darparwyd cymorth i garcharorion sy'n cael eu rhyddhau o garchardai yng Nghymru a Lloegr dan awdurdod Deddf Tai (Pobl Ddigartref) 1977. Yn ôl Mackie (2014, t.1), roedd y ddeddfwriaeth yma yn “uchel ei pharch trwy'r byd i gyd oherwydd yr hawl i lety sefydlog a roddir ganddi”. O dan y Ddeddf yma, roedd pedwar prawf yn berthnasol i bobl a honai fod yn ddigartref ac roedd yn rhaid pasio pob un er mwyn i awdurdod lleol dderbyn dyletswydd i'w cartrefu. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu llety sefydlog i unigolyn (neu aelwyd) os:

- oeddent dan fygythiad o ddigartrefedd yn y 28 diwrnod nesaf (neu a oedd yn ddigartref go iawn)
- oeddent mewn angen blaenoriaethol
- nad oeddent yn fwriadol ddigartref
- oedd ganddynt gysylltiad lleol.

1.2.2 Gallai unigolion neu aelwydydd a ddynodwyd mewn ‘angen blaenoriaethol’ gael eu rhoi mewn ‘llety dros dro’ tra'r ymdrechwyd i ddod o hyd i lety mwy parhaol iddynt. Gellid hefyd roi blaenoriaeth resymol iddynt parthed neilltuo tai awdurdodau lleol. Rhoddwyd statws angen blaenoriaethol i rai unigolyn neu aelwydydd yn awtomatig (e.e. pobl gyda phlant dibynnol) ac i eraill oes oeddent yn hyglwyf.

1.2.3 Daeth y prawf a ddefnyddiwyd yn bennaf i sefydlu a oedd rhywun yn hyglwyf, ac o ganlyniad mewn angen blaenoriaetho,l i gael ei adnabod fel prawf Pereira. Maentumiai'r Llys Apêl, yn achos Pereira v Cygor

Camden, fod rhywun yn hyglwyf os yw eu hamgylchiadau yn golygu y buasent yn dioddef mwy pan yn ddigartref na'r 'person digartref arferol'.

1.2.4 Yn 2002, gwnaethpwyd newidiadau gan y Lywodraeth Lafur o ran dyletswyddau awdurdodau lleol tuag at gyn-droseddwyr trwy Orchymyn Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol am Lety) (Lloegr) 2002. Fe ehangodd adran 189 o Ddeddf Tai 1996 i gynnwys, fel 'angen blaenoriaethol', griw o bobl oedd yn hyglwyf am eu bod wedi bwrw dedfryd yn y carchar neu wedi bod ar remand. Fodd bynnag, rhoddwyd statws angen blaenoriaethol i bob gadawr carchar yng Nghymru yn sgil Gorchymyn Digartrefedd (Angen Blaenoriaethol) Pobl Ddigartref 2001.

1.2.5 Daeth llety carcharion i fwy o amlygrwydd mewn polisi cosbi o ganlyniad i adroddiad ar aildroseddu gan yr SEU (2002). Yn yr adroddiad hwn, fel yr amlygwyd eisoes, cydnabuwyd llety sefydlog fel un o'r ffactorau allweddol a all leihau aildroseddu. Wedi hynny, daeth helpu gadawyr carchar i ddod o hyd i loches yn un o saith llwybr tuag at Leihau Aildroseddu a sefydlwyd gan Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Lleihau Aildroseddu'r Llywodraeth (Y Swyddfa Gartref, 2004).

1.2.6 Yn Ebrill 2005, cyflwynwyd Gorchymyn Gwasanaeth Carchardai (PSO) 2350. Roedd y gorchymyn hwn yn gofyn i asesiad anghenion tai gael ei wneud 'cyn gynted â phosibl' ar bob newydd ddyfodiad i'r carchar. Mewn perthynas â'r llwybr llety yng Nghymru, darparodd y llwybr Rheoli Risg Tai a Chyn-Droseddwyr: Protocol Cyswllt (Cymru) (2006) yng Nghymru fodel trosfwaol i fynd i'r afael â digartrefedd ar adegau derbyn ac ailsetlo mewn dedfryd carchar.

1.2.7 Bid a fo am hynny, ledled Cymru a Lloegr, darganfu arolwg o 680 carchar yn 2010 mai dim ond 21% ddywedodd eu bod yn ymwybodol o unrhyw ddarpariaeth tai yn eu carchar, a dim ond 4% oedd wedi ymgysylltu â darpariaeth o'r fath (Gojkovic et al. 2012).

1.2.8 Yn ogystal, awgrymai Harding a Harding (2006) a Cooper (2016) na chafodd gadawyr carchar a (chyn) droseddwyr chwarae teg gan y ddeddfwriaeth. Roedd hynny am y gallent gael eu categoreiddio'n rhwydd yn 'fwriadol ddigartref' (a chan hynny wedi eu heithrio o wasanaethau tai) yn rhinwedd y ffaith eu bod wedi troseddu yn y lle cyntaf. Gallai'r prinder o

lety dros dro hefyd olygu fod gadawyr carchar yn aml yn cael eu cartrefu mewn llety gwely a brecwast ymhell o'u hardaloedd lleol a heb gefnogaeth (Humphreys a Sterling 2008). Er bod cynnydd cyson yn y nifer o adawyr carchar a 'dderbyniwyd' ar gyfer llety dros dro yng Nghymru ar ôl 2001, roedd llawer i weld yn diflannu o'r system wedyn. Darganfu Bibbings (2012), allan o bob cyn-droseddwr oedd yn gadael llety dros dro mewn 13 ardal awdurdod lleol yng Nghymru yn 2010/11, mai dim ond 39% a symudodd ymlaen i dai mwy sefydlog. Roedd hyn yn cymharu gyda 62% o bob aelwyd arall oedd yn gadael llety dros dro. Ar y cyfan, roedd cyn-garcharorion tua un a hanner gwaith mwy tebygol o adael llety dros dro nag eraill.

1.2.9 Nodwyd fod rhai awdurdodau lleol yng Nghymru, fodd bynnag, yn cyflawni cyfraddau symud ymlaen i adawyr carchar o lety dros dro y gellid eu cymharu â rhai'r boblogaeth gyffredinol. Yn yr achosion hyn, cysylltwyd hynny â natur y gefnogaeth a gynigiwyd i gyn-droseddwyr cyn ac ar ôl eu rhyddhau. Meddai Shelter am hyn yn 2015:

> *Mae ystod o astudiaethau yn pwysleisio pwysigrwydd gwaith partneriaeth amlasiantaethol effeithiol wrth gwrdd ag anghenion gadawyr carchar. Y consensws yw ei bod yn bosibl fod camgymeriadau wedi cael eu gwneud yn y gorffennol trwy gymryd yn ganiataol y byddai darparu tai sefydlog ynddo'i hun yn datrys holl broblemau pobl sy'n gadael carchar . (Shelter, 2015a, t.10)*

## 1.3 Deddf Tai (Cymru) 2014

1.3.1 O 2009 ymlaen, dechreuodd Llywodraeth Cymru adolygu ei hagwedd tuag at gefnogi pobl oedd yn profi neu mewn perygl o ddigartrefedd yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2009). Archwiliodd cyfres o adroddiadau bolisi rhyngwladol yn y maes a gofynnwyd am safbwyntiau Rhanddeiliaid parthed digonolrwydd y fframwaith deddfwriaethol presennol (Mackie a Hoffman, 2011; Fitzpatrick et al., 2012, Mackie et al., 2012a, 2012b, 2012c).

1.3.2 Yn sgil ymgysylltu ac ymgynghori dilynol gydag ystod o randdeiliaid, dynodwyd cefnogaeth eang i ffocws cynyddol ar weithgareddau ataliol. Ymgorfforwyd ffocws o'r fath yn Cartrefi i Gymru: Papur Gwyn ar gyfer Bywydau Gwell a Chymunedau Gwell a gyhoeddwyd yn 2012 ac wedyn, o Ebrill 2015 ymlaen, cyflwynodd Deddf Tai (Cymru) newidiadau sylweddol i'r modd y byddai digartrefedd yn cael ei daclo yng Nghymru.

1.3.3 Ceisiodd newidiadau i'r ddeddfwriaeth digartrefedd yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) ganoli gwasanaethau ar atal digartrefedd a darparu cymorth i bob ymgeisydd cymwys:

- Gosododd Adran 62 ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad ym mhob achos newydd lle mae person/aelwyd cymwys wedi gwneud cais iddynt am lety neu gymorth i gael gafael ar lety a lle mae'r person/aelwyd hynny yn ddigartref neu dan fygythiad o ddigartrefedd yn y 56 diwrnod nesaf.
- Gosododd Adran 66 ddyletswydd i 'helpu i atal' person/aelwyd cymwys o'r fath rhag bod yn ddigartref.
- Lle mae person/aelwyd cymwys o'r fath yn ddigartref ac a allai fod yn y categori 'angen blaenoriaethol', gosododd Adran 68 'ddyletswydd interim' ar Awdurdodau Lleol i osod person/aelwyd o'r fath mewn llety dros dros tra bod ymholiadau pellach yn cael eu gwneud.
- Gosododd Adran 73 ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu 'cymorth i sicrhau' llety lle mae person/aelwyd yn gymwys am gymorth ac yn ddigartref. Mae'r ddyletswydd i helpu i sicrhau llety yn para am 56 diwrnod ond fe all ddod i ben ynghynt mewn nifer o amgylchiadau penodol.
- Gosododd Adran 73 ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu 'cymorth i sicrhau' llety pan fo person/aelwyd yn gymwys am gymorth ac yn ddigartref. Mae'r ddyletswydd i helpu i sicrhau llety yn para am 56 diwrnod ond yn gallu dod i ben ynghynt mewn nifer o amgylchiadau penodol.

- Gosododd Adran 75 ddyletswydd derfynol ar awdurdodau lleol i sicrhau llety ar gyfer personau/aelwydydd mewn angen blaenoriaethol sydd â chysylltiadau lleol. Newidiwyd y gofyniad blaenorol i sgrinio ar gyfer 'digartrefedd bwriadol' o ddyletswydd i rym.
- Grymusodd Deddf Tai (Cymru) 2014 awdurdodau lleol i berfformio eu dyletswyddau trwy'r sector rhentu preifat yn ogystal â'r sector rhentu cymdeithasol.
- Dynododd Adran 70 o Ddeddf Tai (Cymru) y personau/aelwydydd hynny a ddylai gael eu hystyried mewn angen blaenoriaethol (NB: gellir eithrio fel y gwelir yn ddoeth):
    - Merched beichiog.
    - Personau/aelwydydd gyda phlant dibynnol.
    - Personau/aelwydydd sydd yn hyglwyf am resymau arbennig.
    - Personau/aelwydydd sy'n profi argyfwng yn sgil tân neu lifogydd.
    - Personau/aelwydydd sy'n profi camdriniaeth ddomestig.
    - Pobl sengl 16-17 oed.
    - Pobl 18-21 oed sydd mewn perygl o Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant.
    - Pobl 18-21 oed sydd wedi bod yn 'Blant y Gofalir Amdanynt' yn flaenorol.
    - Unigolion digartref a ddiswyddwyd o'r gwasanaethau arfog.
    - Person sydd yn hyglwyf o ganlyniad i fod yn y ddalfa.

1.3.4 Ceisiodd y Ddeddf gefnogi arferion oedd yn grymuso pobl i lunio datrysiadau i'w problemau llety a allai fod trwy 'Gynlluniau Tai Personol' (PHP) a ddatblygwyd ar y cyd a fyddai'n mynd i'r afael, nid yn unig â phroblemau llety uniongyrchol ond hefyd, lle'n berthnasol, â materion sylfaenol digartrefedd. I'r diben hwn, roedd y Ddeddf yn pwysleisio gweithio ar y cyd rhwng asiantaethau iechyd, cyfiawnder troseddol a gofal cymdeithasol er mwyn cwrdd ag anghenion tai yn well. Gan hynny, chwedl Shelter, roedd y Ddeddf yn ceisio rhoi athroniaeth newydd mewn grym:

> *Mae athroniaeth y dull newydd hwn yn seiliedig ar weithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau eraill a pobl sy'n wynebu digartrefedd. Y nod yw annog pobl i lunio eu datrysiadau eu hunain, gan edrych nid yn unig ar broblemau tai uniongyrchol ond ar unrhyw faterion sylfaenol yn ogystal, gan ymyrryd yn fuan lle bynnag y bo modd er mwyn atal sefyllfaoedd pobl rhag mynd allan o reolaeth (Shelter 2015b).*

1.3.5 O ganlyniad i'r ffocws newydd ar weithgareddau atal, rhagwelwyd y byddai mwy o bobl yn gymwys am gymorth nag oedd yna o'r blaen. Yn ogystal, disgwyliwyd i'r awdurdodau lleol geisio perfformio mwy o'u dyletswyddau digartrefedd trwy gynnig llety yn y sector preifat.

1.3.6 Diddymodd Deddf Tai (Cymru) y statws angen blaenoriaethol awtomatig a roddwyd i bob gadawr carchar yng Nghymru. Roedd statws angen blaenoriaethol, fodd bynnag, yn dal i gael ei roi i'r gadawyr carchar hynny a ystyriwyd yn "hyglwyf o ganlyniad i'w cyfnod yn y ddalfa" neu'r rheiny oedd yn cwrdd ag unrhyw un o'r meini prawf eraill er mwyn bod mewn angen blaenoriaethol. Rhagwelwyd na fyddai oddeutu 70% o'r carcharorion oedd â hawl ar ddyletswydd tai yn flaenorol yn gymwys ar gyfer y dyletswyddau hynny mwyach (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, 2014).

1.3.7 O ganlyniad i bryderon ynghylch effeithiau posibl y newid hwn, a fyngewyd yn ystod sesiynau archwilio ar gyfer y Ddeddf (e.e. Shelter, 2013), sefydlodd y cyn Weinidog ar gyfer Tai ac Adfywio Weithgor Llety

ac Ailsetlo Carcharorion (PARWG) er mwyn archwilio prosesau i sicrhau y byddai anghenion gadawyr carchar yn dal i gael eu cwrdd yn ddigonol. Rhoddwyd mwy o frys i brosesau o'r fath gan newidiadau cyflin o ran y modd y byddai carcharorion yn cael eu trafod yn sgil Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014.

## 1.4 Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014

1.4.1 Cyflwynodd Papur Gwyrdd 2010, Torri'r Cylch, (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2010) ddull newydd o daclo aildroseddu. Roedd yn cynnwys ymroddiad i daclo'r hyn a ystyriwyd yn rhwystrau i adsefydlu ac yn arwain at ddatblygu Trawsnewid Adsefydlu: Strategaeth Ddiwygio (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2013b) a Deddf Adsefydlu Troseddwyr 2014 (ORA 2014).

1.4.2 Arweiniodd ORA 2014 at newidiadau yn y ffordd y byddai troseddwyr yn cael eu goruchwylio yn y ddalfa ac yn y gymuned. Ym Mehefin 2014, rhannodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder y 35 Ymddiriedolaeth Prawf oedd mewn bodolaeth yn Wasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) sector cyhoeddus a 21 Cwmni Adsefydlu Cymunedol (CRCs) newydd. Ailddiffiniwyd cyfrifoldebau'r NPS fel y byddai ei staff yn cynghori llysoedd ynghylch dedfrydu a rheoli'r troseddwyr hynny sy'n risg uchel o niwed difrifol i eraill (neu'n MAPPA enwol). Byddai CRCs yn goruchwylio pob troseddwr arall a aseswyd yn risg isel neu ganolig o niwed i eraill.

1.4.3 Roedd CRCs mewn perchenogaeth gyhoeddus hyd at Chwefror 2015 pan, yn dilyn ymarfer caffael, cawsant eu trosglwyddo i wyth darparwr sector preifat yn gweithio dan gytundeb i'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr. Yng Nghymru, dyfarnwyd y cytundeb i gyflenwi gwasanaethau CRC i Working Links.

1.4.4 Tra nad oedd carcharorion a ddedfrydwyd i lai na 12 mis yn y ddalfa yn gymwys ar gyfer goruchwyliaeth ôl-ryddhau cyn ORA 2014, estynnodd y Ddeddf oruchwyliaeth o'r fath i'r rheiny oedd yn bwrw dedfrydau o fwy na diwrnod. Cynyddodd hyn gan oddeutu 45,000 o droseddwyr y flwyddyn, y niferoedd o adawyr carchar oedd yn gymwys am oruchwyliaeth ôl-ryddhau (Tŷ'r Cyffredin, 2016).

1.4.5 Contractiwyd CRCs hefyd i ymgymryd â gwaith ailsetlo mewn carchardai o fewn eu hardaloedd dalgylch. Er mwyn hwyluso gwasanaethau 'Drwy'r Giât' (TTG) fel hyn, dynodwyd 70 o'r 123 carchar yng Nghymru a Lloegr yn garchardai ailsetlo. Y bwriad oedd, yn y tri mis olaf cyn eu rhyddhau, y byddai carcharorion yn cael eu symud i'r carchar ailsetlo yn eu hardaloedd lleol, a threfniadau cefnogi a goruchwylio ôl-rhyddhau yn cael eu datblygu o'r fan honno (HMIP, 2017). Is-gontractiwyd gwasanaethau TTG gan y rhan fwyaf o CRCs. Er enghraifft, is-gontractiodd Working Links, CRC Cymru, wasanaethau TTG yn CEM Caerdydd i St Giles' Trust. Fodd bynnag, parhaodd i fod yn gyfrifol am waith TTG yn CEM a STI Park.

1.4.6 O fis Mai 2015 ymlaen, diwygiwyd rhai o'r arferion derbyn a chyn-rhyddhau mewn carchardai. Roedd yn ofynnol ar Lywodraethwyr Carchardai sicrhau fod trefniadau mewn grym i sicrhau fod 'Offeryn Sgrinio Carchar Sylfaenol' yn cael ei gwblhau ar bob carcharor newydd o fewn 72 awr iddynt gael eu derbyn i'r carchar. Cwblheir Rhan 1 o hyn gan staff Gwasanaeth Carchardai. Yn adran B3 o Ran 1, mae asesiad o angen tai yn ofynnol (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2014)

1.4.7 Mae Rhan 2 o'r BCS yn Gynllun Ailsetlo a gwblheir gan staff TTG. Mae'n gofyn i staff TTG ddynodi'r "gweithredoedd sy'n ofynnol" i fynd i'r afael â'r anghenion a ddynodwyd yn asesiad Rhan 1. Mae'r Model Gweithredol Targedig ar gyfer darparwyr CRC yn gofyn i'r Cynllun Ailsetlo (Rhan 2 o'r BCS) gael ei gwbhlau ac yna'i adolygu 12 wythnos cyn rhyddhau.

1.4.8 Mae gan Swyddogion Cyfrifol (staff NPS neu CRC) sy'n goruchwylio carcharorion wrth iddynt gael eu rhyddhau i'r gymuned) fynediad i'r BCS gorffenedig, rhan 1 a 2. Yn eu tro, mae gan staff mewn carchardai fynediad i'r asesiadau OASys gorffenedig.

1.4.9 OASys yw'r offeryn cynllunio ac asesu risg ac anghenion a ddefnyddir gan weithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â rheoli achosion mewn lleoliadau prawf a charchar. Mae'n cwmpasu meysydd o angen posibl sy'n gysylltiedig â throseddu, llety, cyllid, cyflogaeth, perthnasau, ffordd o fyw a chymdeithion, defnyddio cyffuriau, defnyddio alcohol, agweddau, lles ac iechyd meddwl emosiynol, meddwl ac ymddygiad, ac iechyd corfforol.

Mae OASys hefyd yn ymgorffori asesiad ac, unwaith iddo gael ei gwblhau, Cynllun Dedfryd a Chynllun Rheoli Risg.

1.4.10 Ym mhob achos lle mae troseddwyr yn cael eu hasesu yn risg uchel o niwed difrifol i eraill ac/neu yn gymwys ar gyfer rheolaeth o dan Drefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (MAPPA), dylai'r OASys gael ei gwblhau, a'r carcharor gael ei reoli trwy'r profiad carcharol, gan staff NPS yn y gymuned (a fydd yn cydgysylltu gyda staff yn Uned Rheoli Troseddwyr (OMU) y carchar). Bydd gofyn i'r swyddog NPS alw cyfarfodydd cynllunio dedfryd blynyddol i drafod cynnydd y carcharor.

1.4.11 Neilltuir Goruchwyliwr Troseddwyr o fewn yr OMU i garcharorion risg isel a chanolig sy'n bwrw dedfryd 12 mis neu fwy. Yr unigolyn yma, aelod mewn iwnifform o staff y carchar neu weithiwr CRC fel arfer, fyddai'n gyfrifol am gwblhau'r OASys a rheoli anghenion y carcharor yn y ddalfa. Byddai'r Goruchwyliwr Troseddwyr hefyd yn gyfrifol am alw a chadeirio cyfarfod cynllunio dedfryd blynyddol i adolygu cynnydd y carcharor.

1.4.12 I'r rheiny â ddedfrydwyd am gyfnod rhwng 12 mis a 2 flynedd, mae'n rhaid i'r OASys gael ei gwblhau o fewn 8 wythnos i'r ddedfryd. I'r rheiny sy'n bwrw dedfryd o dros 2 flynedd, rhaid ei gwblhau o fewn 16 wythnos i'r ddedfryd. Fel y nodwyd, adolygir OASys bob blwyddyn fel arfer.[2]

1.4.13 Yn achos troseddwyr sy'n gymwys ar gyfer MAPPA, byddai eu categori rheoli MAPPA yn cael ei egluro gan y carchar ac NPS chwe mis cyn iddynt gael eu rhyddhau. Byddai'r rheiny a reolir ar Lefelau 2 a 3 yn atebol i gyfarfod Panel Amlasiantaethol ar gyfer Diogel'r Cyhoedd (MAPPP) cyn eu rhyddhau.

1.4.14 Ddeuddeg wythnos cyn i garcharorion gael eu rhyddhau, disgwylir iddynt gael eu symud i'r carchar aisetlo ar gyfer eu hardal leol, lle byddai staff TTG yn cydlynu gwasanaethau ailsetlo.

1.4.15 Ar ôl eu rhyddhau, byddai gadawyr fel arfer yn cael eu gweld er dibenion goruchwylio bob mis o leiaf. Yn achos gadawyr carchar a oruchwylir gan y CRC a asesir yn risg isel o niwed difrifol neu debygolrwydd isel o

---

[2] Gellir ei adolygu bob tair blynedd yn achos troseddwyr sy'n bwrw dedfrydau amhenodol.

aildroseddu, fodd bynnag, gallai'r lefelau cysylltu gael eu cwtogi i'r graddau y gellir eu cysylltu ar y ffôn bob chwe mis yn unig.

## 1.5 Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Oedolion yn yr Ystad Ddiogel

1.5.1 Yn sgil newidiadau yn y gyfraith Tai ac Ailsefydlu Troseddwyr, datblygodd PARWG y Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion yn yr Ystad Ddiogel. Nod y Llwybr Cenedlaethol yw cyfuno prosesau presennol ar gyfer darparu gwasanaethau i garcharorion gydag anghenion tai a disgrifio'r systemau ar gyfer rheoli cyfathrebu a pherthnasau rhwng yr asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau perthnasol. Arweiniwyd datblygiad a gweithrediad y Llwybr Cenedlaethol o ran oedolion gan Lywodraeth Cymru, gyda chyfranogiad sylweddol gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yng Nghymru (a ailenwyd yn HPPS Cymru); Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a 'Working Links'- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru.

1.5.2 Aeth y Llwybr Cenedlaethol yn fyw yn Rhagfyr 2015, gan weithredu ar ffurf cysgod o Fai 2015 ymlaen. Ceir manylion pellach am y llwybr yn adrannau'r adroddiad hwn sy'n canolbwyntio ar dri pwynt allweddol o ymyrryd ar gyfer y rheiny sydd angen cymorth tai (a) wrth gael eu derbyn; (b) adeg adsefydlu; ac (c) ar ôl eu rhyddhau.

1.5.3 Mae agweddau allweddol o'r Llwybr Cenedlaethol yn cynnwys tasgau penodedig a neilltuir i asiantaethau penodol ar adegau allweddol yn nhaith carcharor trwy'r ddalfa. Cyflwynir y rhain ar dudalennau 16-17 o'r Llwybr Cenedlaethol.

1.5.4 Sicrhaodd Llywodraeth Cymru fod cyllid ar gael i gefnogi gadawyr carchar yn ystod cyfnod pontio 12 mis a thra bod y Llwybr Cenedlaethol yn cael ei weithredu (estynnir cyllid trosiannol hyd at 2018 ar hyn o bryd). Nod y cyllid hwn oedd talu am gefnogaeth frys, gan gynnwys cost llety byrdymor, i rai gadawyr carchar. Nod arall oedd darparu sicrwydd pellach o lety dros dro i'r rheiny na fyddai wedi cael mynediad i wasanaethau atal cyn dechrau'r Ddeddf ac a fyddai wedi colli angen blaenoriaethol – h.y. rheiny a ryddhawyd yn yr wythnosau ar ôl ei sefydlu.

# 2 Y Cyd-destun Gweithredu

## 2.1 Diwygio Lles

2.1.1 Mae yna heriau yn gysylltiedig ag atal a mynd i'r afael â digartrefedd ymhlith gadawyr carchar yng Nghymru sy'n ymwneud â phasio Deddf Diwygio Lles a Gwaith 2012. Un o'r diwygiadau allweddol a effeithiai ar y sector tai oedd cyflwyno Meini Prawf Maint y Sector Cymdeithasol (SSSC). Mae cyflwyniad y 'Dreth Ystafell Wely' hon yn golygu gostyngiad o 14% ym mudd-dal tai hawlwyr lles os oes ganddynt un ystafell sbâr a 25% os oes ganddynt ddwy neu fwy. Yn sgil y newid hwn, roedd mwy o alw am eiddo un/dwy ystafell wely nag oedd yna, gan gynyddu'r gystadleuaeth am lefydd a anheddwyd gan ddynion sengl, fel y mae'r mwyafrif o adawyr carchar yn dueddol o fod, chwedl Cooper (2016).

2.1.2 Cyflwynwyd Cyfraddau Llety Sengl (SAR) yn 1996 (Cooper, 2016). I ddechrau, roedd hyn yn cyfyngu'r lwfans Budd-dal Tai i berson o dan 25 i'r cyfartaledd ar gyfer person sengl mewn llety a rennir yn yr ardal awdurdod lleol benodol honno. Yn 2012, diwygiwyd hyn i gwmpasu pobl hyd at 35 oed, fel y mae'r mwyafrif o adawyr carchar yn dueddol o fod, chwedl Cooper (2016) eto.

2.1.3 Effaith gyfunol yr SSSC a SAR ar bobl sengl o dan 35 sydd yn ddibynnol ar Fudd-dal Tai yw eu bod yn debygol o orfod chwilio am lety a rennir, a allai fod yn ddigonol neu'n brin mewn rhai ardaloedd. Ar y llaw arall, fe allai unigolion o'r fath gael mwy o groeso yng nghartrefi teulu a ffrindiau a allai wynebu gostyngiadau yn eu taliadau lles eu hunain fel arall.

2.1.4 Cyrchwyd data cysylltiedig â chyfraddau'r Lwfans Tai Lleol ac argaeledd eiddo yng Nghaerdydd fel rhan o'r astudiaeth. Yn yr ardal honno, roedd Lwfans Tai Lleol ar gyfer llety a rennir yn £242.38 y mis calendr. Un pryder oedd y ffaith mai pump oedd y nifer o eiddo ar gael yn yr ystod pris honno yn 13/10/17.

2.1.5 Yn hanesyddol, gwnaed taliadau Budd-daliadau Tai yn uniongyrchol i landlordiaid. Cysylltwyd cyflwyniad y Credyd Cynhwysol o dan y Ddeddf Diwygio Lles gyda hawlwyr yn derbyn eu budd-daliadau i gyd yn uniongyrchol fel taliad unigol. Gallai hyn gael cryn efaith ar barodrwydd

landlordiaid yn y sector preifat a chymdeithasol i letya unigolion a ystyrir yn risg uwch o fethu â thalu rhent.

2.1.6 Pan fo unigolion yn derbyn Lwfans Ceisio Gwaith (JSA), Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) neu Gredyd Cynhwysol, mae yna amodau a gofynion pendant mewn grym. Cyflwynwyd trefn sancisynau newydd yn 2012 sy'n cosbi'r rheiny nad ydynt yn mynd ati i chwilio am waith neu ymgymryd â chyfleoedd a allai effeithio'n anghymesur ar y digartref. Yn Lloegr, awgryma Homelessness Watch fod 3% o hawlwyr JSA a 2.7% o hawlwyr ESA yn derbyn sancsiwn, o'i gymharu â thraean o bobl ddigartref ar JSA ac un rhan o bump o bobl ddigartref ar ESA (Homelessness Watch 2013).

## 2.2 Perchenogaeth Tai

2.2.1 Mae heriau ychwanegol i gartrefu gadawyr carchar yn gysylltiedig â newidiadau mewn cyflenwad tai dros y degawd diwethaf. Mae perchenogaeth tai wedi bod ar i lawr yn y ddau ddegawd diwethaf yn y DU, a phrynwyr tro cyntaf yn cael eu hunain wedi'u prisio allan o'r farchnad. Bu'r gostyngiadau mwyaf dramatig mewn perchenogaeth tai ymhlith aelwydydd iau, gan ddisgyn 20% pwynt rhwng 2003/04 a 2013/14 (Stephens a Stephenson, 2016). Mae rhai pobl iau wedi aros yn eu cartrefi teuluol tra bod eraill wedi ceisio annibyniaeth yn y farchnad rhentu preifat. Yn Lloegr, mae'r gyfran o bobl 25 i 34 oed sy'n rhentu'n breifat wedi dyblu bron mewn 10 mlynedd, o 2% yn 2005-06 i 46% yn 2015-16 (Hodgson, 2017). Sbardunwyd hyn gan gynnydd 'prynu i osod' sydd wedi cadw prisiau tai yn uchel. Yn erbyn cefndir o alw uwch, mae'n debyg mai pobl ifanc gyflogedig yw'r tenantiaid mwyaf deniadol. I raddau helaeth oherwydd i'r Ddeddf Diwygio Lles a Gwaith gyhoeddi polisi o rewi taliadau budd-dal tai am bedair blynedd gan gychwyn yn 2016/2017.

2.2.2 Gostyngodd y nifer a'r ganran o stoc tai cymdeithasol gwag yng Nghymru yn ystod 2015-16. Ar y 31ain Mawrth 2016, roedd cyfanswm o 4,340 uned tai cymdeithasol (1.9 y cant o'r holl stoc tai cymdeithasol) yn wag, i lawr 4 y cant ar y flwyddyn flaenorol.

2.2.3 Mae amcangyfrif y niferoedd o bobl sy’n cysgu allan yn nodedig o anodd, ond awgrymai data a gyhoeddwyd yn 2016 fod cyfanswm y DU i fyny 55% ers 2010 (Fitzpatrick et al. 2016). Yn ôl y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (2017), mae’r nifer o aelwydydd sy’n byw mewn llety dros dro yn y DU wedi cynyddu 58% ers 2010/2011. Maent yn awgrymu fod y nifer o bobl sy’n cysgu allan wedi cynyddu 134% dros yr un cyfnod o amser. Ym mis Tachwedd 2016, cynhaliodd Llywodraeth Cymru eu hail gyfrif blynyddol o bobl sy’n cysgu allan ledled Cymru, gan gofnodi cynnydd o 72% o’i gymharu ag yn 2015 (Llywodraeth Cymru, 2017).

## 2.3 Diwygio Cyfiawnder Troseddol

2.3.1 Ar 31 Mawrth 2017, cyfanswm poblogaeth y carchardai yng Nghymru a Lloegr oedd 85,557 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2017). Mae yna dueddiad gwaelodol cyffredinol o nifer gynyddol o bobl yn cael eu cadw mewn carchardai. Cododd poblogaeth carchardai Cymru a Lloegr oddeutu 90% rhwng 1990 a 2016 (Tŷ’r Cyffredin, 2017a). Roedd yna gyfanswm o 88,400 o dderbyniadau remand neu ddedfrydedig yn y 12 mis hyd at Fawrth 2017. Rhyddhawyd 73,560 o’r ddalfa yn yr un ffrâm amser (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2017b).

2.3.2 Awgryma ystadegau’r Weinyddiaeth Gyfiawnder fod y mwyafrif o garcharorion wedi’u dedfrydu yn bwrw llai na 12 mis yn y ddalfa bob blwyddyn. Yn y deuddeg mis yn diweddu Mawrth 2015, er enghraifft, roedd 51,686 (57%) o garcharorion yn bwrw chwe mis neu lai, a 6,055 (7%) pellach yn bwrw dros chwe mis ond llai na 12 mis. Gan fod merched yn dueddol o gyflawni troseddau llai difrifol, mae’r gyfran o ferched sy’n bwrw dedfrydau llai na chwe mis yn uwch (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, 2015).

2.3.3 Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael, y gost o ddarparu lle mewn carchar y flwyddyn yw £35,371 ar gyfartaledd. Mae hyn yn hafal i £680 yr wythnos (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2017c).

2.3.4 Dros y deng mlynedd diwethaf, mae’r nifer o garcharorion a ryddhawyd ond a adalwyd wedyn i’r ddalfa yng Nghymru a Lloegr wedi cynyddu. Cafwyd cynnydd sylweddol ar ôl 2015:

**Tabl 1: Nifer o Adalwadau i'r Ddalfa 2007-2017**

| Blwyddyn | Nifer o Adalwadau |
|---|---|
| 2007/2008 | 13,252 |
| 2008/2009 | 13,467 |
| 2009/2010 | 15,004 |
| 2010/2011 | 15,631 |
| 2011/2012 | 16,591 |
| 2012/2013 | 16,307 |
| 2013/2014 | 17,515 |
| 2014/2015 | 17,701 |
| 2015/2016 | 22,412 |
| 2016/2017 | 21,721 |

Ffynhonnell: Tŷ'r Cyffredin (2017b)

2.3.5 Disgwylir i'r nifer o adalwadau gynyddu dros y blynyddoedd nesaf o ystyried, cyn ORA, na fyddai'r rheiny a ddedfrydwyd i lai na 12 mis yn y ddalfa wedi bod yn rhwym wrth unrhyw fath o oruchwyliaeth orfodol.

2.3.6 Mae yna ddau fath o adalwad. Mae adalwad tymor sefydlog am gyfnod sefydlog o 28 diwrnod. Byddai trefniadau rhyddhau cynnar mewn grym felly byddai rhywun a ddychwelwyd i'r ddalfa ar adalwad sefydlog yn aros yn y ddalfa am 14 diwrnod. Ceir adalwad safonol i garcharorion nad ydynt yn gymwys am adalwad sefydlog (e.e. am eu bod yn bwrw dedfryd am drosedd dreisgar neu rywiol). Gall y math yma o adalwad arwain at garcharor yn cael eu cadw yn y ddalfa hyd at ddiwedd eu ddedfryd neu adeg amhenodol nes bydd y bwrdd parôl (yn dilyn gwrandawiad llafar) yn barnu eu bod yn addas i'w rhyddhau.

2.3.7 Mae'r rhan fwyaf o garchardai yn orboblog. Fel ar y 30 Rhagfyr 2016, roedd 69% (80) o garchardai yn orboblog, gyda dau garchar Cymreig, CEM Caerdydd a CEM Altcourse, yn yr 20 uchaf o'r carchardai mwyaf

gorboblog. Mae yna 6000 yn llai o swyddi swyddogion carchardai yng Nghymru a Lloegr o'i gymharu ag yn 2010 (Taylor et al., 2016). Cyd-darodd y gostyngiad hwn mewn staff carchardai gydag ymddangosiad y defnydd o sylweddau seicoweithredol fel problem o fewn amgylcheddau carcharol (Ralphs et al., 2017). Mae carchardai yn llefydd mwy di-drefn a threisgar erbyn hyn, i'r graddau yr ysgogwyd y Prif Arolygydd Carchardai yn ddiweddar i'w disgrifio fel 'llefydd annerbyniol o dreisgar a pheryglus' (Carchardai AEM, 2016: 8).

2.3.8 Yn ddiweddar, cafodd y trefniadau cytundebol sy'n gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau TTG eu beirniadu. Mae niferoedd is na'r disgwyl o bobl wedi bod yn rhwym wrth oruchwyliaeth CRC ac, oherwydd fod CRC yn cael eu hariannu ar sail y niferoedd o bobl o oruchwylir ganddynt, mae hyn wedi effeithio ar eu ffrydiau cyllid. Mae cyllid is wedi cyfyngu gallu a/neu barodrwydd CRCs i fuddsoddi ac ariannu unrhyw beth ac eithrio gweithgareddau sy'n eu galluogi i gwrdd â'u safonau isaf cytundebol orfodol (Tŷ'r Cyffredin 2016).

2.3.9 Cymhellwyd arloesi mewn gweithgaredd TTG gan CRCs i ddechrau. Y rheswm am hyn oedd, yn ogystal â thaliadau cysylltiedig â chydymffurfio cytundebol, y byddai 'taliad yn ôl canlyniadau' ychwanegol yn dilyn lle gallai CRC ddangos fod eu gweithgareddau yn arwain at leihau aildroseddu. Fodd bynnag, oherwydd fod ffrydiau cyllid wedi gostwng a'i bod yn anodd profi effaith yn y maes hwn, canolbwyntiwyd gweithgareddau TTG ar gwblhau Cynlluniau Ailsetlo (BCS2) a chyfeirio carcharorion ymlaen ar gyfer gwasanaethau o fewn graddfeydd amser rhagnodedig (Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd, 2017).

2.3.10 Mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016, gan ganolbwyntio ar garcharorion gyda dedfryd lai na 12 mis (achosion CRC yn bennaf), awgrymodd Prawf AEM a Charchardai AEM, o ran y 4 carchar a arolygwyd ganddynt (un ohonynt yng Nghymru), nad oedd digon yn cael ei wneud i fynd i'r afael ag anghenion llety. Awgrymwyd:

*Ni wyddai'r carcharorion pwy fyddai'n eu helpu, beth fyddai'r cymorth hwnnw yn ei olygu, a phryd y byddent yn gwybod beth oedd wedi cael ei wneud. Roedd llawer o'r atgyfeiriadau a wnaed yn geisiadau safonol at adrannau tai lleol. Roedd y y rhain yn annhebygol o gael sicrhad o unrhyw lety cyn iddynt gael eu rhyddhau. Roedd carcharorion a ryddhawyd i ardaloedd heb eu cynnwys gan y CRC penodol yn y carchar yn derbyn llai fyth o gymorth. Ni welsom unrhyw waith arloesol gan y CRCs i wneud mynediad i lety yn haws. Roedd rhai cynigion a wnaed gan y CRCs cyn cael eu cytundebau yn cynnig cynlluniau megis ariannu blaendaliadau rhent neu fathau eraill o gymorth byrdymor, ond ni welsom hyn ar waith* (*Archwiliad Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd, 2016, t.22).*

2.3.11 Ym Mehefin 2017, cyhoeddodd Prawf AEM a Charchardai AEM ganlyniadau ei arolwg o wasanaethau ailsetlo TTG i garcharorion gyda dedfryd o 12 mis neu fwy (achosion NPS yn bennaf). Nid oedd unrhyw reswm yn eu tyb hwy i fod yn fwy cadarnhaol am y gwaith a gwblhawyd fel rhan o ddarpariaeth TTG nag i garcharorion tymor byrrach. Awgrymwyd ganddynt fod darparwyr TTG yn canolbwyntio mwy ar ddynodwyr ansawdd cysylltiedig â'u goblygiadau cytundebol. Nid oedd gwaith ystyrlon o ansawdd yn cael ei gymell. Roedd 10% o'r 98 carcharor yn eu sampl yn ddigartref y noson gyntaf ar ôl eu rhyddhau. Ni ddynodwyd anghenion ar y BCS1 adeg derbyn neu fe'u cofnodwyd yn wael. Cwblhawyd Cynlluniau Ailsetlo BCS2, ond nid mewn modd amserol, ac o ansawdd gwael. O ran materion llety, meddai'r adroddiad:

*Roedd gormod o garcharorion (mwy nag un mewn saith) yn cael eu rhyddhau heb wybod lle y byddent yn cysgu'r noson honno. Daethpwyd o hyd i lety i ddau garcharor yn unig trwy drefniadau Drwy'r Giât. Gosodwyd tri arall mewn llety byrdymor a ddarparwyd gan CEMPS ar gyfer cyrffew carchariad yn y cartref. Gadawyd swyddogion cyfrifol i ysgwyddo'r gwaith a ddylai fod wedi cael ei wneud gan wasanaethau Drwy'r Giât ar ôl rhyddhau... petai*

*gwasanaethau TTG yn cael eu diddymu yfory, bach iawn fyddai effaith hynny ar ailsetlo carcharorion, yn ein tyb ni (Archwiliad Cyfiawnder Troseddol ar y Cyd, 2017, t.3)*

2.3.12 Yn fwy diweddar, datganodd Michael Spurr, Pennaeth Gwasanaethau Prawf a Charchardai Ei Mawrhydi, “Nid yw CRCs yn gweithio fel y buasem wedi hoffi iddyn nhw weithio," ac mai dim ond “gwasanaeth ailsetlo sylfaenol” oedd yn cael ei ddarparu i lawer o adawyr carchar.[3] Yn rhannol oherwydd gwerthusiadau fel hwn, mae Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ’r Cyffredin wedi lansio ymholiad i Raglen Trawsnewid Adsefydlu’r Llywodraeth. Bydd yr ymholiad hwn yn canolbwyntio ar y modd y mae mesurau presennol y Llywodraeth yn mynd i’r afael yn effeithiol â’r heriau sy’n wynebu’r gwasanaethau prawf, a beth arall sydd angen ei wneud yn y tymor byr i wella’r system prawf a’r modd y mae carcharorion yn cael eu cefnogi a’u goruchwylio ar ôl cael eu rhyddhau o’r ddalfa.

2.3.13 Ar y llaw arall, yn y 24 mis diwethaf, mae Carchardai AEM wedi cyfeirio’n fwy cadarnhaol at yr ymdrechion a wneir gan staff a llywodraethwyr carchardai yn ogystal â’r CRC yng Nghymru i reoli anghenion tai poblogaeth y carchar yn CEM Caerdydd, CEM a STI Parc a CEM Abertawe (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi 2016a, 2016b, 2017). Yn adroddiad yr arolwg ar CEM Caerdydd, meddir:

*Deliwyd gyda charcharorion gyda phroblemau tai yn gyflym. Roedd y gwasanaethau llety yn dda ac yn cynnwys cynnal ac ildio tenantiaethau, budd-daliadau tai a cheisiadau am lety cyn rhyddhau (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 2016a, t.16).*

2.3.14 O ran CEM a STI Park, nodwyd:

*Roedd cefnogaeth tai i garcharorion yn rhesymol. Cafodd pawb oedd newydd gyrraedd eu gweld ac roedd cefnogaeth ar gael i gynnal tenantiaeth a/neu ddelio gyda dyledion tai. Yn ôl dadansoddiad diweddar, cafodd 96% o’r holl*

[3] Mae yna brinder cefnogaeth i gyn-garcharorion, yn ôl Pennaeth y Gwasanaethau Prawf http://www.bbc.co.uk/news/uk-41595826

*garcharorion eu rhyddhau i lety dros dro neu barhaol addas (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 2016b, t.16)*

2.3.15 Yn achos Abertawe, awgrymwyd bod:

*Carcharorion yn gallu cael gafael ar grŵp o gynghorwyr cyfurdd gwerthfawr. Gweithiodd cynghorwyr cyfurdd yn effeithiol i gefnogi carcharorion wrth ailsetlo, yn enwedig wrth eu cyfeirio at wasanaethau tai ac eraill... Ymgymerodd gweithwyr St Giles Trust ag ystod priodol o gefnogaeth llety, gan gynnwys cynnal ac ildio tenantiaethau a sicrhau llety wrth ryddhau, lle bo modd. Er hynny, roedd y ganran o ddynion oedd yn gadael Abertawe heb lety cynaliadwy wedi cynyddu'n sylweddol ers yr arolwg diwethaf i 49% uchel, ac yn annerbyniol. I raddau helaeth, roedd y cynnydd hwn yn adlewyrchu diddymiad carcharorion gan Gynulliad Cymru o'r categori angen blaenoriaethol am dai (Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi, 2017, t.50)*

2.3.16 Datblygiad o bwys a allai effeithio ar wasanaethau digartrefedd a ddarperir i'r ystad ddiogel yng ngogledd Cymru fu agor CEM Berwyn yn Wrecsam, ym Mawrth 2017. Mae CEM Berwyn yn garchar hyfforddi ac ailsetlo Categori C i ddynion a fydd yn graddol gynyddu at ei gynhwysedd gweithredol llawn o 2106 o lefydd.

2.3.17 Yn sgil cyflwyno Deddf Lleihau Digartrefedd (2017), bydd darparwyr gwasanaethau Prawf a Charchardai yn Lloegr yn rhwym cyn hir wrth set tebyg o ddyletswyddau ag un Cymru o gyfeirio rhywun a allai fod mewn perygl o fod yn ddigartref i'r awdurdod tai lleol.

## 2.4 Deddf Tai (Cymru) 2014

2.4.1 Defnydd cyfyngedig sydd i'r ystadegau digartref y mae Llywodraeth Cymru yn eu casglu gan awdurdodau lleol bob chwarter, wrth ddynodi tueddiadau ynghylch y modd y mae gwasanaethau ar gyfer gadawyr carchar wedi datblygu ers i'r Llwybr Cenedlaethol ddod i rym. Ar y cyfan, nid yw cymariaethau uniongyrchol o ddata Cyn- ac Ôl-Ddeddf yn bosibl

oherwydd newidiadau yn y ffyrdd o weithio a chasglu data. Er enghraifft, ni chofnodwyd gweithgareddau atal cyn i'r Ddeddf ddod i rym.

2.4.2 Dim ond yn ddiweddar y casglwyd data Ôl-Ddeddf a chafwyd amrywiaethau rhwng awdurdodau lleol yn y modd y gwnaethpwyd hyn. Yn sgil pryderon ynghylch ansawdd y data a ddychwelyd i Lywodraeth Cymru o dan y Ddeddf, hyd at Orffennaf 2017, cafodd yr ystadegau eu hail-ddynodi fel Ystadegau Cenedlaethol.

2.4.3 Mae'r data sydd ar gael yn nodi, yn y flwyddyn yn diweddu Awst 2017 a ledled y 22 ardal awdurdod lleol, bod:

- 159 aelwyd gyda gadawr carchar yng Nghymru dan fygythiad o ddigartrefedd
- 1,323 aelwyd gyda gadawr carchar yng Nghymru yn gymwys ac yn ddigartref ac yn rhwym wrth a.73, 'cymorth i sicrhau' llety
- 273 aelwyd gyda gadawr carchar yng Nghymru yn gymwys ac yn ddigartref ond heb fod mewn angen blaenoriaethol nac yn gymwys, yn ddigartref ond yn fwriadol ddigartref.
- 144 aelwyd gyda gadawr carchar yng Nghymru yn gymwys, mewn angen blaenoriaethol ac yn anfwriadol ddigartref, gyda dyletswydd derfynol yn ddyledus iddynt o dan adran 75[4].

2.4.4 Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn adroddiad chwarterol gan staff IOM Cymru ar sut mae'r Llwybr Cenedlaethol yn gweithredu ym mhob carchar sy'n gwasanaethu Cymru. Mae'r adroddiadau yn ceisio darparu arolwg o statws llety carfan o garcharorion a ryddheir o'r carchar hwnnw a'u hailsetlo yng Nghymru yn ystod mis penodol. Archwilir system cofnodi achosion n-Delius y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol er mwyn dynodi statws llety cofnodedig gadawyr carchar ar ddiwrnod eu rhyddhau ac yna wythnos ar ôl eu rhyddhau. Yna, cysylltir â staff tai awdurdodau lleol am fwy o wybodaeth am bob person sy'n dweud nad oedd ganddynt lety i fynd iddo ar ôl cael eu rhyddhau.

[4] Data a gymerwyd o Stats Cymru https://statswales.gov.wales/Catalogue/Housing/Homelessness/Statutory- Homelessness-Prevention-and-Relief

2.4.5 Yn y rhan fwyaf o’r adroddiadau, mae canlyniadau’r data fel a ganlyn: mae’r awdurdodau lleol yn gweithio gyda’r rhan fwyaf o droseddwyr cyn iddynt gael eu rhyddhau o’r ddalfa er mwyn eu helpu i gael gafael ar lety addas (os ydynt yn derbyn cymorth cais am lety); mae lleiafrif o droseddwyr yn dal i ymddangos ar ddiwrnod eu rhyddhau neu’r diwrnod canlynol yn sgil newid munud olaf mewn amgylchiadau; mae’r troseddwyr hynny a aseswyd gan yr awdurdod lleol mewn ‘angen blaenoriaethol’ yn cael eu darparu gyda llety dros dro.

2.4.6 O dan y trefniadau newydd ar gyfer goruchwyliaeth gymunedol o droseddwyr, rhoddwyd fframwaith perfformio newydd mewn grym ar gyfer CRCs a’r NPS. Mae sicrwydd metrig C CRC yn ymwneud â’r ganran o garcharorion a ryddhawyd i lety sefydlog. Mae data perfformiad chwarterol CRC ar gyfer y metrig yma yn awgrymu fod perfformiad CRC Cymru yn uwch na’r cyffredin (er bod y data yn amrywiol iawn). Cofnodir deilliannau llety ar gyfer 77% a 92% o bob achos CRC yn Lloegr a Chymru yn y drefn honno. O’r rhain, mae 77% yn mynd i lety yn Lloegr ac 82% yng Nghymru. Mae’r sicrwydd metrig o 82% ar gyfer Working Links wedi’i ragori gan ddim ond 4 o’r 20 CRC arall.

## 3 Llwybr Cenedlaethol: Trefniadau Cyflenwi

3.1.1 Mae'r Llwybr Cenedlaethol i Oedolion yn yr Ystad Ddiogel (Cymru) yn berthnasol ac yn ymwneud ag arfer gyda charcharorion mewn naw carchar sy'n lletya carcharorion o Gymru yn gyson.

3.1.2 Mewn sefydliadau sy'n darparu ar gyfer carcharorion o Gymru, is-gontractir gwasanaethau fel a ganlyn:

**Tabl 2: Trefniadau Cyflenwi Gwasanaethau Carchardai, Hydref 2017**

| Carchar | CRC ar gyfer ardal pecyn y cytundeb | Darparwr Drwy'r Giât | Darparwr Prison Link Cymru |
|---|---|---|---|
| CEM Altcourse | Purple Futures Merseyside | Shelter (Lloegr) | Shelter Cymru |
| CEM Berwyn | Working Links | Shelter Cymru | Shelter Cymru |
| CEM Caerdydd | Working Links | St Giles Trust | Pobl |
| CEM Eastwood Park | Working Links | Safer Wales | Pobl |
| CEM ac YOI Parc | Working Links | Working links | Pobl |
| CEM Stoke Heath | The Reducing Reoffending Partnership | St Giles Trust | Shelter Cymru |
| CEM Styal | Purple Futures? | Cymru Diogelach | Shelter Cymru |
| CEM Abertawe | Working Links | St Giles Trust | Pobl |
| CEM Prescoed/ Brynbuga | Working Links | St Giles Trust | Pobl |

3.1.3 Tra gallai'r carchardai uchod i gyd dderbyn carcharorion adeg eu dedfrydu, ar y cyfan mae swyddogaethau derbyn dynion yn digwydd yn CEM Altcourse yng ngogledd Cymru a chanolbarth Cymru, ac yn CEM

Caerdydd neu Abertawe yn ne Cymru. Yn achos merched, ymgymerir â swyddogaethau o'r fath gan CEM Styal yng ngogledd Cymru a CEM Eastwood Park yn ne Cymru.

3.1.4 Mae yna bedwar safle cymeradwyedig yng Nghymru sydd â lle i rhwng 23-26 o unigolion. Mae yna 32 gofod Llety Mechnïaeth ar wahân[5]

**Tabl 3: Safleoedd Cymeradwyedig Cymru Hydref 2017**

| Enw | Math | Poblogaeth | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|---|
| Quay House | Safleoedd Cymeradwyedig | Dynion 18+ | Abertawe |
| Tŷ Newydd | Safleoedd Cymeradwyedig | Dynion 18+ | Gwynedd |
| Plas-y-Wern | Safleoedd Cymeradwyedig | Dynion 18+ | Wrecsam |
| Manderville House | Safleoedd Cymeradwyedig | Dynion 18+ | Caerdydd |

Ffynhonnell: Cyflwyniad Ysgrifenedig CEMPS i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Ymholiad i Gysgu Allan[6]

**Tabl 4: Llefydd BASS (Cymru) Hydref 2017**

| Math | Dynion/Merched | Awdurdod Lleol |
|---|---|---|
| Llety Mechnïaeth | 3 lle i ddynion | Pen-y-bont ar Ogwr |
| | 4 lle i ddynion a 2 le i ferched | Caerdydd |
| | 3 lle i ddynion | Llanelli |
| | 3 lle i ferched | Merthyr Tydfil |
| | 5 lle i ddynion | Casnewydd |
| | 6 lle i ddynion | Abertawe |
| | 3 lle i ddynion a 3 lle i ferched | Wrecsam |

Ffynhonnell: Fel Tabl 3

[6]ar gael yn: http://senedd.assembly.wales/documents/s71737/ELGC5-05-18%20Paper%2013%20-%20Evidence%20from%20CEMPS%20Wales.pdf

3.1.5 Mae arfer cyffredinol o ran mynd i'r afael â digartrefedd yn cael ei drafod a'i ddatblygu yng Nghymru dan nawdd cyfarfodydd chwarterol ar wahân 'Rhwydwaith Digartrefedd' a 'Rhwydwaith Cefnogi Pobl'. Mynychir y cyntaf, Rhwydwaith Digartrefedd, gan staff opsiynau tai o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Mynychir yr ail, Rhwydwaith Cefnogi Pobl, gan y prif swyddog(ion) o bob awdurdod lleol ar gyfer comisiynu a/neu reoli prosiectau a gwasanaethau a ariennir gan Cefnogi Pobl.

3.1.6 Mae arfer o ran y Llwybr yn cael ei ddatblygu a'i hwyluso dan nawdd y tri Cyfarfod Ailsetlo Carcharorion Rhanbarthol (un yn y gogledd, un yn y De Ddwyrain, un yn y De Orllewin).

3.1.7 Ariennir gwasanaeth Prison Link Cymru (PLC) gan Llywodraeth Cymru trwy'r Grant Atal Digartrefedd. Mae'r gwasanaeth yn cwrdd ag anghenion cysylltiedig â thai ar adeg derbyn i garchar. Darperir y gwasanaeth gan staff o Pobl yn y de a Shelter Cymru yn y gogledd.

3.1.8 Yn y Llwybr Cenedlaethol, dywedir fod gan staff PLC rôl a gedwir ar gyfer cam derbyn y daith garcharol ond, am ei fod wedi'i leoli y tu allan i ardal cyfrifoldeb CRC Cymru, ailnegodwyd hyn yn CEM Altcourse fel bod staff PLC yn ymgymryd â'r gwaith ailsetlo a staff CRC yn ymgymryd â'r gwaith cysylltiedig â derbyn.

3.1.9 Mae'r rhan fwyaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yn derbyn atgyfeiriadau tai yn uniongyrchol, ond mae yna amrywiadau. Yng ngogledd Cymru, mae pedwar awdurdol lleol wedi defnyddio arian pontio i gyflogi 'Swyddog Cydgysyllu Carchar Rhanbarthol' sy'n derbyn pob atgyfeiriad tai (Atodiad 8), yn asesu pa ddyletswyddau sy'n ddyledus, ac yn cwblhau PHP sylfaenol cyn anfon y wybodaeth ymlaen i'r awdurdod perthnasol.

3.1.10 Mae'r rhan fwyaf o'r 22 ardal awdurdod lleol yn gweithredu gwasanaeth porth ar gyfer ymyriadau a ariennir gan Cefnogi Pobl.

3.1.11 Mae'r Prosiect Grymuso Rhyddhau Myfyrwyr (PREP) yn gweithredu ledled Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Torfaen, Pen-y-Bont ar Ogwr a Chasnewydd. Mae PREP yn darparu cymorth i garcharorion digartref a asesir heb fod mewn categori angen blaenoriaethol. Mae'r prosiect yn gweithio gyda gadawyr carchar i ddod o hyd i a chynnal tai, ac yn eu

cefnogi i sicrhau pontio llwyddiannus a chadarnhaol o'r carchar i'r gymuned.

3.1.12 Mae'r Ymddiriedolaeth Cyngor a Gofal Carchdardai (PACT) yn gweithredu gwasanaeth mentora ledled Cymru. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth hwn yn fwy datblygedig mewn rhannau o dde Cymru. Mae gwasanaeth PACT yn darparu gwasanaeth nôl a gollwng i'r rheiny sy'n cael eu rhyddhau o'r ddalfa, a gwasanaeth mentora tymor hirach (tri chytundeb). Cyflogir cysylltbwynt PACT unigol (SPOC) yn CEM Caerdydd ac mae yna weithiwr in situ yn CEM Eastwood Park. Mae yna gynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth yn CEM Abertawe a CEM Berwyn. Darperir gwasanaeth PACT i droseddwyr o dan oruchwyliaeth CRC, ond gall NPS ei brynu i mewn am ffi sefydlog.

3.1.13 Mae Justice Cymru yn fenter Cymru gyfan sy'n gosod gweithwyr tai o fewn timau CRC. Mae gweithiwr Justice Cymru yn ymgysylltu â throseddwyr yn y gymuned a, lle bo angen, yn y ddalfa er mwyn eu hysgogi a'u cefnogi i ymgysylltu â gwasanaethau. Mae'n bosibl fod gan staff Justice Cymru eu cysylltiadau eu hunain â darparwyr gwasanaethay tai. Cyflenwir gwasanaethau 'Justice Cymru' gan gonsortiwm o ddarparwyr a'u contractio gan CRC Cymru; Working Links. Fe allai'r gwasanaeth gael ei gyrchu gan staff NPS trwy dalu ffi sefydlog.

3.1.14 Mae yna brosiect Braenaru i Ferched yng Nghaerdydd sy'n darparu cyngor a chymorth cysylltiedig â thai i garcharorion benywaidd fel rhan o ddull amlasiantaethol.

# 4 Llyfryddiaeth


Bibbings, J (2012) Briffiad Polisi: cyn-droseddwyr digartref yng Nghymru, 2010/11. Shelter Cymru

Bowpitt, G (2015) New keys for old doors: breaking the vicious circle connecting homelessness and reoffending In: Z. Irving, M. Fenger and J. Hudson, eds., Social policy review 27: analysis and debate in social policy, Bryste: Policy Press.

Clinks (2017) Briefing: Are the Accommodation Needs being met for people in contact with the criminal justice system? Chwefror 2017. Ar gael i'w weld yn https://www.clinks.org/sites/default/files/basic/files-downloads/llety_for_people_in_contact_with_the_cjs-_feb_2017.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 5.4.18)

Coates, S (2016) Unlocking potential: a review of education in prison. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Ar gael i'w weld yn: https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/524013/education-review-report.pdf (Cyrchwyd ddiwethaf 5/4/2018)

Cooper, V. and Sim, J. (2013) 'Punishing the Detritus and the Damned: Why Prison in Liverpool and the Northwest?' yn D. Scott (gol.) Why Prison? Caergrawnt: Cambridge University Press.

Cooper, V. (2016) 'It's all considered to be unacceptable behaviour' Criminal justice practitioners' experience of statutory housing duties for (ex) offenders. Probation Journal, Vol.63(4), pp.433-45.

Criminal Justice Joint Inspection (2014) Resettlement Provision for Adult Offenders: Accommodation and Education, Training and Employment by HM Inspectorate of Prisons, HM Inspectorate of Probation and Ofsted. Ar gael i'w weld yn http://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/wp-content/uploads/sites/2/2014/09/Resettlement-thematic-for-print-Sept-2014.pdf

Criminal Justice Joint Inspection (2016) An Inspection of Through the Gate Resettlement Services for Short Term carcharorion. Llundain: CJJI Ar gael i'w weld yn https://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/wp-content/uploads/sites/2/2016/09/Through-the-Gate.pdf

Criminal Justice Joint Inspection (2017) An Inspection of Through the Gate Resettlement Services for Prisoners Serving 12 Months or More. Llundain: CJJI Ar gael i'w weld yn https://www.justiceinspectorates.gov.uk/cjji/inspections/throughthegate2/

Farrall,S., Bottoms,A and Shapland,J (2010) Social Structures and Desistance from Crime. European Journal of Criminology Vol. 7(6), pp. 546-570.

Fitzpatrick, S., Johnsen, S. a Watts, B. (2012). Adolygiad o Bolisi Digartrefedd Rhyngwladol: Adroddiad i hysbysu'r adolygiad o ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Fitzpatrick, S., Pawson, H., Bramley, G., Wilcox, S. and Watts, B. (2016) The Homeless Monitor: England 2016. Ar gael yn http://www.crisis.org.uk/data/files/publications/Digartrefness_Monitor_England 2016_FINAL_(V12).pdf (cyrchwyd ddiwethaf 2/3/17)

Gibbons, D (1971), 'Observations on the Study of Crime Causation', American Journal of Sociology, 77: 262-78

Gojkovic,D., Mills, A and Meek, R (2012) Accommodation for ex-offenders: Third sector housing advice and provision. Third Sector Research Centre. Working Paper 77 http://www.birmingham.ac.uk/generic/tsrc/documents/tsrc/working-papers/working-paper-77.pdf

Harding, A and Harding, J (2006) Inclusion and Exclusion in the re-housing of former-prisoners. Probation Journal Vol. 53(2) pp137-153.

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2016) Prif Arolygydd Carchardai Cymru a Lloegr EM. Adroddiad Blynyddol 2015-2016. Llundain: Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2016a) Adroddiad ar arolygiad dirybudd o CEM Caerdydd. Llundain: Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2016b) Adroddiad ar arolygiad dirybudd o CEM a STI Park. Llundain: Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi (2017) Adroddiad ar arolygiad dirybudd o CEM Abertawe. Llundain: Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi

Hodgson, Lord (2017) Britain's Demographic Challenge: The implications of the UK's rapidly increasing population". Ivitas: Llundain

Homelessness Watch (2013) A High Cost to Pay. Ar gael i'w weld yn: https://www.homeless.org.uk/sites/default/files/site-attachments/A%20High%20Cost%20to%20Pay%20Sept%2013.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 5.4.18)

Y Swyddfa Gartref (2004) Lleihau Aildroseddu: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol. Llundain: Y Swyddfa Gartref

Tŷ'r Cyffredin (2016) Trawsnewid adsefydlu. Ail Adroddiad ar Bymtheg Sesiwn 2016-17 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2016–17. Ar gael i'w weld yn https://www.publications.parliament.uk/pa/cm201617/cmselect/cmpubacc/484/484.pdf

Tŷ'r Cyffredin (2017a) Ystadegau Poblogaeth Carchardai'r DU Rhif SN/SG/04334, 20 Ebrill 2017. Ar gael i'w weld yn: file:///C:/Users/jonesim/Downloads/SN04334%20(4).pdf (cyrchwyd ddiwethaf 19/12/17)

Tŷ'r Cyffredin (2017b)HC Deb 13 Hyd 2017 107703W http://www.parliament.uk/business/publications/written-questions-answers-statements/written-question/Commons/2017-10-13/107703/

Humphreys, C a Sterling, T (2008) Angenrheidiol ond Annigonol: Tai a lleihau aildroseddu. Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ar gael i'w weld yn http://www.assembly.wales/NAfW%20Documents/cc_3__awe_02_-_wlga_necessary_but_not_sufficient-housing_the_reduction_of_reoffending-3.pdf%20-%2009122009/cc_3__awe_02_-_wlga_necessary_but_not_sufficient-housing_the_reduction_of_reoffending-3-English.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 5.4.18)

Johnsen, S., & Teixeira, L. (2010). Staircases, Elevators and Cycles of Change: 'Housing First' and other housing models for homeless people with complex support needs. Llundain: Crisis.

Mackie, P. a Hoffman, S. (2011). Deddfwriaeth Digartrefedd yng Nghymru: Safbwyntiau rhanddeiliaid ynghylch gwelliannau posibl, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mackie, P., Thomas, I., Hidgson, K (2012a) Dadansoddi effaith deddfwriaeth digartrefedd bresennol yng Nghymru. Adroddiad i hysbysu'r adolygiad o ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru http://www.senedd.assembly.wales/documents/s7352/impactanalysisofexistingdigartrefeddlegislationinwales.pdf

Mackie, P., Fitzpatrick, S., Stirling, T., Johnsen, S. a Hoffman, S. (2012b). Opsiynau ar gyfer Fframwaith Deddfwriaethol Digartrefedd Gwell yng Nghymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mackie, P., Thomas, I., Fitzpatrick, S., Stirling, T., Johnsen, S. a Hoffman, S. (2012c). Asesu effeithiau newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru: adroddiad i hysbysu'r adolygiad o ddeddfwriaeth digartrefedd yng Nghymru, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Mackie, P (2014) The Welsh Homelessness Legislation Review: Delivering Universal Access to Appropriate Assistance? Contemporary Wales, Vol.27(1) pp. 1-20

Mackie, P (2015) Homelessness Prevention and the Welsh Legal Duty: Lessons for International Policies Housing Studies, 2015 Vol. 30 (1) pp. 40–59,

Maguire, M and Raybor,P (2006) How the resettlement of prisoners promotes desistance from crime: Or does it? Criminology & Criminal Justice Vol: 6(1) pp19–38

Maguire, M. and P. Raynor (1997) 'The Revival of Throughcare: Rhetoric and Reality in Automatic Conditional Release', British Journal of Criminology 37(1) pp. 1–14.

Markowitz, F (2011) Mental illness, crime, and violence: Risk, context, and social control. Aggression and Violent Behavior 16 (2011) pp.36–44

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2010) Torri'r Cylch: Cosbi, Adsefydlu a Dedfrydu Carcharorion yn Effeithiol. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2012) Llety, Digartrefedd ac Aildroseddu gan Garcharion: Canlyniadau arolwg Arolygu Lleihau Troseddu Carcharorion (SPCR) gan Kim Williams, Jennifer Poyser a Kathryn Hopkins. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2013) Trawsnewid Adsefydlu: Strategaeth Ddiwygio. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014) Model gweithredu Targed: fersiwn 3 www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/387795/target-operating-model-3.pdf

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, (2012b), Cyfarwyddyd Gwasanaeth Carchardai – Y Ddalfa, PSI 12/2012. Ar gael yn http://www.justice.org.uk/offenders/psis/prison-service-instructions-2012

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2015a) Ystadegau'r System Cyfiawnder Troseddol, diweddariad chwarterol hyd at Fawrth 2015, Cymru a Lloegr. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017a) Poblogaeth Carchardai: ystadegau wythnosol. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Llundain. Ar gael i'w weld yn https://www.gov.uk/government/statistics/prison-population-figures-2017 (cyrchwyd ddiwethaf 19/12/2017)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017b) Bwletin Ystadegau Rheoli Troseddwyr, Cymru a Lloegr: Chwarterol Hydref hyd at Ragfyr 2016; Blynyddol 2016; Poblogaeth carchardai: 31 Mawrth 2017. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain. Ar gael i'w weld yn http://criminaljusticealliance.org/wp-content/uploads/2017/07/Offender-management-stats.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 19/12/17)

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017c) Costau fesul lle a chostau fesul carcharor gan garchardai unigol. Adroddiad a Chyfrifon Blynyddol y Gwasanaeth Prawf a Charchardai EM 2016-17 Adendwm Gwybodaeth Rheoli. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Llundain. Ar gael i'w weld yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/653972/costs-per-place-per-prisoner-2016-2017-summary.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 19/12/17)

Swyddfa Archwilio Cenedlaethol (2016) Trawsnewid Adsefydlu. Adroddiad gan y Goruchwyliwr a'r Archwiliwr Cyffredinol. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder HC 951 SESIWN 2015-16 28 Ebrill 2016 https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2016/04/Transforming-rehabilitation.pdf

Swyddfa Archwilio Cenedlaethol, (2017) Digartrefedd. Swyddfa Archwilio Cenedlaethol, DCLG: Llundain. Ar gael i'w weld yn:https://www.nao.org.uk/wp-content/uploads/2017/09/Digartrefedd.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 19/12/17)

Niven, S a Stewart,D (2005) Deilliannau Ailsetlo wrth Ryddhau o Garchar. Canfyddiadau Ymchwil y Swyddfa Gartref 248. Y Swyddfa Gartref: Llundain.

O'Brien B (2016) 'Public Spaces Protection Orders – an "attack of vagueness"", Safer Communities, Vol. 15 (4), pp.183 – 189

Offenders' Learning and Skills Service (2015) OLASS English and Maths assessment: participation 2014/15, ar gael yn: https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/fe-data-library-education-and-training [Cyrchwyd 19/10/2016]

Pleace,N and Bretherton,J (2013) The Case for Housing First in the European Union: A Critical Evaluation of Concerns about Effectiveness. European Journal of Homelessness Vol. 7(2) pp21-36

Iechyd Cyhoeddus Cymru (2013) Asesiad o Anghenion Iechyd Carchardai: Adroddiad Technegol

Adolygiad thematic 2013: anghenion iechyd meddwl a darpariaeth ledled ystad y carchardai yng Nghymru. Ar gael i'w weld yn:

http://www.wales.nhs.uk/sites3/documents/457/mhna%20technical%20report%20v1.3%20(final).pdf (cyrchwyd ddiwethaf 19/12/17)

Ralphs, R., Williams, L., Askew, R. and Norton, A. (2017), Adding Spice to the Porridge: The development of a synthetic cannabinoid market in an English prison, International Journal of Drug Policy, Vol. 40, pp57-69.

Social Exclusion Unit (SEU)(2002) Reducing reoffending by Ex-prisoners: Summary of the social exclusion unit report. Llundain: SEU

Shelter (2008) Y tro yma: archwilio effeithiolrwydd ymyriadau presennol wrth gartrefu carcharorion digartref a ryddheir i Gymru. Caerdydd: Shelter

Shelter (2013) Ymateb i'r ymgynghoriad ar y cynnig i ddiwygio dyletswydd awdurdod lleol i gartrefu cyn-garcharorion o ganlyniad i'w statws angen blaenoriaethol. Ar gael i'w weld yn: https://sheltercymru.org.uk/wp.../Former-prisoner-PN-response-Shelter-Cymru.doc (cyrchwyd ddiwethaf 5.4.18)

Shelter (2015a) Sefydlog: Arfer da mewn atal digartrefedd ymhlith gadawyr carchar Mai 2015. Ar gael i'w weld yn: https://sheltercymru.org.uk/wp-content/uploads/2015/02/Settled-Good-practice-in-homelessness-prevention-among-prison-leavers.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 5.4.18)

Shelter (2015b) Cipolwg ar Ddigartrefedd - Gorffennaf 2015. Ar gael i'w weld yn: http://sheltercymru.org.uk/digartrefedd-snapshot/ (cyrchwyd ddiwethaf 5.4.18)

Stephens,M and Stephenson, A (2016) Housing Policy in the Austerity Age and Beyond. In Fenger, M., Hudson, J. and Needham, C. (eds.) (2016) Social Policy Review 28. Analysis and Debate in Social Policy, Bryste: Policy Press, pp. 63-85

Taylor, S., Burke, L., Millings, M., Ragonese,E (2017) Transforming Rehabilitation during a penal crisis: A case study of Through the Gate services in a resettlement prison in England and Wales. Probation Journal Vol 9(2) pp.115-131

Cenhedloedd Unedig (2004). United Nations Demographic Yearbook review. Efrog Newydd: Cenhedloedd Unedig.

Watson, S. and Austerberry, H. (1986). Housing and Homelessness: A Feminist Perspective. Llundain: Routledge and Kegan Paul.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2009). Cynllun digartrefedd deng mlynedd i Gymru:

2009–2019, Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2014) Paratoi i Atal. Pa mor barod yw'r Awdurdodau Lleol ar gyfer y newidiadau digartrefedd? Ar gael i'w weld yn http://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=694 (cyrchwyd ddiwethaf 5.4.18)

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (2015) Astudiaeth cwmpasu a mapio i wella ailsetlo carcharorion sy'n dod allan o'r ddalfa. Caerdydd: WLGA. Ar gael i'w weld yn: http://www.wlga.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=62&mid=665&fileid=470 (cyrchwyd ddiwethaf 5.4.18)

Llywodraeth Cymru (2017) Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan, Tachwedd 2016-Ystadegau Arbrofol. Llywodraeth Cymru. Ar gael i'w weld yn http://gov.wales/docs/statistics/2017/170201-national-rough-sleeper-count-november-2016-experimental-statistics-en.pdf (cyrchwyd ddiwethaf 2/3/17)